# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 2

CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH ETC.

## PENNOD 2

PWERAU I ADDASU DEDDFWRIAETH SY’N YMWNEUD Â CHYMORTH ARIANNOL A CHYMORTH ARALL

### 16 Pŵer i addasu deddfwriaeth sy’n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy’n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol i’r graddau y mae’n cael effaith o ran Cymru.

(2) Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr cynllun y taliad sylfaenol yw Cynllun y Taliad Sylfaenol o dan Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy’n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (“y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol”);

(b) ystyr “deddfwriaeth sy’n llywodraethu Cynllun y Taliad Sylfaenol” yw’r ddeddfwriaeth a ganlyn, sy’n ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â’r ddeddfwriaeth honno—

(i) y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;

(ii) unrhyw Reoliad Dirprwyedig y Cyngor, neu Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, a wnaed o dan y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;

(iii) unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir arall sy’n ymwneud â gweithredu cynllun y taliad sylfaenol.

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 16 mewn grym ar 17.10.2023, gweler **a. 56(2)(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 16.